**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2056/21

28 Gorffennaf 2021

Annwyl Huw Irranca-Davies AS,

Fe wyddoch bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) wedi'i sefydlu yn gyfraith yn 2020.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Cynllun Masnchu yn cael ei chyflwyno'n raddol, drwy gyfres o offerynnau statudol. Mae amseriad a threfn y gyfres hon wedi'u cynllunio i sicrhau bod darpariaethau cyfreithiol penodol yn cael eu cyflwyno wrth iddynt ddod yn weithredol angenrheidiol. Gwnaed yr holl ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i sefydlu'r cynllun yn 2020. Fodd bynnag, mae angen darpariaethau cyfreithiol eraill, ac er nad ydynt yn hanfodol ar gyfer sefydlu'r Cynllun Masnachu ar 1 Ionawr 2021, ystyrir bod eu hangen i weithredu'r cynllun yn effeithiol.

Ar 28 Gorffennaf, bydd Awdurdod y Cynllun Masnachu, sy'n cynnwys pedair Llywodraeth y DU, yn cyhoeddi ymgynghoriad a dau offeryn statudol drafft ar wahân i fynd i'r afael â nifer o faterion technegol a gweithredol a nodwyd wrth ddatblygu a diwygio deddfwriaeth i sefydlu y Cynllun Masnachu.

Disgwylir i'r offerynnau statudol gael eu gosod ym mis Tachwedd fel Gorchmynion yn y Cyngor:

• Bydd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 yn cael ei gyflwyno o dan y weithdrefn negyddol, yn dilyn y Cyfrin Gyngor.

• Bydd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2021 yn cael ei gyflwyno o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft a disgwylir ei gyflwyno hefyd ym mis Tachwedd 2020, cyn ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor.

Bydd y ddau Orchymyn yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Cynllun Masnachu a Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 28 Gorffennaf yn tynnu sylw'r Senedd at yr ymgynghoriad a'r offerynnau statudol drafft. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg dros gyfnod y toriad ac yn dod i ben ar 7 Medi.

Mae'r darpariaethau'n dechnegol ac yn weithredol eu natur, fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder a rhoi'r cyfle gorau posibl i graffu ar y darpariaethau, roeddwn am eich rhybuddio'n bersonol. Rwyf hefyd yn rhannu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn dilyn toriad yr haf, rwy'n disgwyl cyhoeddi datganiad pellach yn nodi opsiynau cychwynnol i ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ymhellach, gyda'r nod o ddarparu cynllun mwy effeithiol.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd